## PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 10fed Hydref 2024

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Menna Baines, Elwyn Jones, Edgar Wyn Owen, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Rowlands, Angela Russell, Ioan Thomas, Elfed Wyn ap Elwyn a Rob Triggs.

**Aelodau Lleyg**: Sharon Warnes, Eifion Jones, Clare Hitchcock, Carys Edwards a Rhys Parry

**Swyddogion:** Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio Mewnol), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Caren Rees Jones (Cyfrifydd Grŵp - Cyfalaf a Rheolaeth), Eleri Jones (Uwch Swyddog Gweithredol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:** Y Cynghorydd Paul Rowlinson (Aelod Cabinet Cyllid)

| | |
|---|---|
| Eitem 6 | Alan Hughes, Fflur Jones ac Yvonne Thomas (Archwilio Cymru); Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) a Dewi Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) |
| Eitem 7: | Cynghorydd Beth Lawton (Cadeirydd Pwyllgor Craffu) a'r Cynghorydd Dewi Jones (Is-gadeirydd Pwyllgor Craffu Gofal) |
| Eitem 13 | Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth) |

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Arwyn Herald Roberts, Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid) a Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol)

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Carys Edwards, yn eitem 7 ar y rhaglen (Cynnyrch Archwilio Mewnol - Cartref Plas Pengwaith) gan fod ei mhâm yn un o drigolion Plas Pengwaith. Nid oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu gan fod y pwnc yn rhan o adroddiad ehangach. Nid oedd rhaid iddi adael y cyfarfod.

3. **MATERION BRYS**

   a) Pryder am y risgiau uchel sydd ynghlwm a heriau cyfreithiol yn erbyn y Cyngor.
      - Angen sicrwydd bod systemau cadarn mewn lle i reoli sefyllfaoedd o risg uchel
      - Angen diweddariad ar drefniadau yswiriant y Cyngor ac unrhyw risg sydd yn berthnasol i'r trefniant hwnnw
      - Angen sicrhau, yn dilyn derbyn argymhellion yr Arolygiad Allanol i drefniadau diogelu'r Cyngor, bod cynllun gweithredu manwl yn cael ei fabwysiadau fel modd o osgoi unrhyw risgiau a chostau i'r dyfodol.

   b) Tynnu sylw bod dwy sedd wag yn parhau ar y Pwyllgor

   **PENDERFYNWYD:**

   **Cais i'r Cadeirydd drafod y pryderon gyda'r Pennaeth Cyllid fel bod modd i Aelodau'r Pwyllgor gael dealltwriaeth well o drefniadau'r Cyngor**

## 4. COFNODION

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 5ed o Fedi 2024 fel rhai cywir.

## 5. GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR

Cyflwynwyd adroddiad oedd yn rhoi amlinelliad o sut mae adrannau'r Cyngor wedi ymateb i benderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel bod modd i'r Aelodau gael sicrwydd bod eu penderfyniadau yn cael sylw. Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried y penderfyniad a wnaed gyda bwriad o ddileu'r eitem / penderfyniad pan fydd y weithred wedi cwblhau.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn cynnwys yr adroddiad**

## 6. ARCHWILIO CYMRU: 'GOFAL BRYS AC ARGYFWNG: LLIF ALLAN O'R YSBYTY – RHANBARTH GOGLEDD CYMRU'

Croesawyd Alan Hughes, Fflur Jones, Yvonne Thomas (Archwilio Cymru), Aled Davies a Dewi Wyn Jones i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd adroddiad gan Archwilio Cymru yn cyfeirio at archwiliad a gyhoeddwyd Chwefror 2024, i ganfod os oedd gan gyrff y GIG ac Awdurdodau Lleol drefniadau priodol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol, effeithlon a darbodus wrth reoli llif cleifion allan o'r ysbyty yn Rhanbarth Gogledd Cymru.

Adroddwyd bod rhyddhau cleifion o ysbytai yn broblem ar hyd y wlad a hynny yn bennaf oherwydd bod y galw yn yr angen wedi cynyddu. O ganlyniad, roedd hyn yn creu problemau megis gostyngiad yn y nifer gwelyau sydd ar gael, gan roi straen ar y gwasanaeth. Ategwyd bod prinder gweithlu, diffygion yn y prosesau rhyddhau a rhannu gwybodaeth yn ychwanegu at yr heriau. Nodwyd bod ymrwymiad cryf gan y Partneriaethau i geisio gwella'r sefyllfa a bod ymateb y rhanbarth i'r argymhellion wedi bod yn gadarnhaol.

Cyflwynwyd ymateb y sefydliad i'r argymhellion ac i'r Pwyllgor eu hystyried, gan Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant). Nodwyd bod gwaith a chanfyddiadau Archwilio Cymru wedi eu croesawu a bod yr ymateb yn un ar y cyd gan sefydliadau ar draws y rhanbarth, gyda Chyngor Gwynedd yn chwarae rhan allweddol yn y broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty. Ategodd bod y rhanbarth yn cydnabod ac yn adnabod y gwelliannau sydd angen eu gweithredu i sicrhau cefnogaeth i gleifion ar ôl dod adref ac y byddai Gwynedd yn gwneud pob ymdrech i gydweithio gyda'r holl bartneriaethau i ymateb i'r heriau hyn. Nododd hefyd bod nifer o'r materion yn cyd-fynd â Blaenoriaethau Cyngor Gwynedd.

Materion yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Er y cydweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), nid yw'r sefyllfa yn gwella; yn sefyllfa argyfyngus. Angen gweld esiamplau o gydweithio da
- Bod ardal BIPBC yn rhy fawr – nid yw'r prosesau yn addas i bwrpas pob ardal o fewn y rhanbarth
- Bod angen cynnal mwy o drafodaethau rhwng BIPBC, yr Awdurdodau Lleol a Phartneriaethau
- Bod gan y Blaid Lafur gynlluniau uchelgeisiol i atgyweirio'r Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol (GIG) – sgôp yma i ymgysylltu gyda Llywodraeth Ganolog Llundain?

- Bod rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn hen broblem – angen canolbwyntio ar be gall Gwynedd ei wneud i wella'r sefyllfa
- Byddai patrwm poblogaeth wedi bod yn ddefnyddiol fel rhan o'r adroddiad - yn gosod cyd-destun yr ardaloedd o fewn y rhanbarth
- BIPBC mewn mesurau arbennig yn aml - y broblem ddim i'w datrys yn hawdd
- Bod canran 'aros i becyn gofal cartref newydd ddechrau' yn uchel - gobeithio bod y Gwasanaeth yn edrych ar hyn
- Prinder gwelyau a staff yn yr ysbytai.

Mewn ymateb i gwestiwn;

- Ynglŷn â pha mor hyderus oedd y sefydliadau, wedi i'r argymhellion gael eu cyflawni, y bydd y sefyllfa wedi gwella ac os oedd adnoddau digonol i gynnal y gwaith, nodwyd bod pob ymdrech yn cael ei wneud i ymateb i'r materion a godwyd ac y bydd rhaid gwneud y defnydd gorau o'r hyn sydd ar gael yn barod. Awgrymwyd y gall addasiadau posib wella'r drefn, megis system technoleg gwybodaeth Cyngor Gwynedd yn rhedeg gyfochrog â system yr ysbytai fel bod modd hwyluso gwybodaeth uniongyrchol rhwng wardiau a chartrefi preswyl. Nododd mai hawdd yw dweud bod angen mwy o bobl i ddelio â hyn, ond ar hyn o bryd y strwythur staffio yn llawn (er bod problem recriwtio gofalwyr cartref a phreswyl). Ategwyd bod rhaid canolbwyntio ar newid diwylliant, y ffordd o weithio, drwy dargedu adnoddau yn y llefydd cywir ac efallai ystyried peidio gor-ddarparu mewn rhai sefyllfaoedd; bod angen sicrhau bod y camau, yn unigol ac mewn partneriaeth yn arwain at wella'r sefyllfa.

- Ynglŷn ag argymhelliad 1 - 'Gwella Hyfforddiant a Chanllawiau' (dyddiad cwblhau Gorffennaf 2024), ac os oedd hyn wedi ei gwblhau o fewn yr amserlen - nodwyd bod y mater 'ar waith' a hynny oherwydd bod gwaith addasu polisi yn cael ei gwblhau.

- Ynglŷn â phwysigrwydd rhannu gwybodaeth ac mai anodd yw gweithredu heb wybodaeth gyfredol, derbyniwyd bod hyn wedi cael ei ddefnyddio fel esgus yn y gorffennol, ond gall rhannu gwybodaeth drwy ddefnyddio systemau technoleg gyfochrog, dynnu haenau oddi ar y broses - byddai yn gyfraniad positif ac yn lleihau risg o golli gwybodaeth (fyddai'n arferol yn cael ei gofnodi ar bapur)

- Ynglŷn â sylw am ddiffygion yn y broses rhyddhau a'r diffyg lle wedi rhyddhau, nodwyd bod gwahaniaethau mewn darpariaeth gofal yng Ngwynedd ac yn enwedig rhwng gofal trefol a gwledig. Ategwyd bod De'r Sir yn waeth na'r gogledd gyda diffygion gwelyau nyrsio a'r angen weithiau i wneud trefniadau tu allan i'r Sir. Yng nghyd-destun gwelyau preswyl, amlygwyd nad oedd cymaint o broblem yma oherwydd bod y gwasanaeth yn canolbwyntio ar gefnogi'r claf i aros yn e cartref.

Diolchwyd am yr adroddiad gyda chais am ddiweddariad ymhen 12 mis. Roedd y pwyllgor yn rhannu eu cefnogaeth gyda'r Gwasanaeth ac yn gwerthfawrogi cymhlethdod y sefyllfa. Adroddwyd bod yr argymhellion wedi eu trafod yn y Tîm Rheoli a bod argymhellion Archwilio Cymru yn cyd-fynd a rhaglenni gwaith y Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant; byddai hyn yn sicrhau bod cyfraniad Gwynedd i'r adolygiad yn un effeithiol.

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyn cynnwys yr adroddiad**
**Cyflwyno diweddariad ar yr argymhellion ymhen 12 mis**

## 7. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn diweddaru'r Pwyllgor ar waith archwilio mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2024 hyd 30 Medi 2024. Amlygwyd bod

11 o archwiliadau'r cynllun gweithredol wedi eu cwblhau ac wedi ei gosod ar lefel sicrwydd uchel; digonol neu gyfyngedig.

Cyfeiriwyd at bob archwiliad yn ei dro. Materion yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Meysydd Parcio (Amgylchedd)
  - Defnydd peiriannau talu – a oes opsiwn 'smart phone'
  - Peiriannau ffôn yn unig yn creu rhwystr i bobl hŷn

  Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Archwilio bod y Gwasanaeth yn gorfod ystyried y risgiau sydd i ddefnyddio peiriannau arian parod yn unig a hefyd yn derbyn y rhwystrau sydd i bobl hŷn - yn anodd cael y balans yn gywir. Ategodd mai cyfuniad o ffyrdd i dalu sydd mewn defnydd ar hyn o bryd.

- Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth
  - Pryder bod yr archwiliad yn cyrraedd lefel sicrwydd cyfyngedig
  - Angen sicrwydd nad oes diffyg cael at y wybodaeth; angen bod yn dryloyw
  - A oedd canlyniad y sampl yn amlygu diffyg yn y wybodaeth a gyflwynwyd ynteu fod rheswm cyfreithiol dros beidio darparu yn 'gywir'?

  Mewn ymateb, cadarnhaodd y Rheolwr Archwilio bod yr atebion a wrthodwyd yn sampl yr archwiliad wedi eu gwrthod am resymau cyfreithiol ac felly'r Cyngor wedi cydymffurfio yn llawn gyda gofynion y Ddeddf. Ategwyd bod y lefel sicrwydd yn ffinio rhwng 'digonol' a 'chyfyngedig', ac yn dilyn trafodaeth gyda'r tîm, cytunwyd ar lefel sicrwydd cyfyngedig oherwydd bod ystadegau perfformiad cyfradd prydlondeb Gwynedd yn 77%, sydd ychydig yn is nag ystadegau Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

  Mewn ymateb i'r diffyg cyrraedd targed ac i gwestiwn ategol os dylai'r mater gael ei gyfeirio at y Grŵp Llywodraethu, nododd y Rheolwr Archwilio bod y mater yn cael ei fonitro gan Grŵp Herio Perfformiad Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, er bod y staff yn ddibynnol ar gyfraniad holl adrannau'r Cyngor i ddarparu'r wybodaeth.

  Gyda'r mater yn ymdrin â sefyllfa ar draws y Cyngor, ystyriwyd os dylai'r Pwyllgor dderbyn adroddiad blynyddol yn nodi trefniadau'r Cyngor i ymdrin â materion Rhyddid Gwybodaeth yn yr un modd ag y mae Trefniadau'r Cyngor i ymdrin â materion Cwynion yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor.

- Cartrefi Gofal Preswyl Plas Pengwaith, Llys Cadfan a Plas Hafan
  - Nad oedd yr adroddiad yn adlewyrchu lefelau sicrwydd da yn y Cartrefi Gofal Preswyl - patrwm i'w weld yma
  - Awgrym i gyfeirio'r mater i'r Pwyllgor Craffu Gofal i edrych yn fanylach ar y materion ac ystyried datrysiad i'r materion diffyg rheolaeth
  - Awgrym pellach i gyfeirio'r mater i'r Grŵp Gwella Rheolaethau gan fod rhai materion elfennol yma - patrwm sydd yn bodoli ers blynyddoedd bellach
  - Angen ystyried a oes trefniadau digonol / cefnogaeth ddigonol ar gyfer y Rheolwyr

  Gwahoddwyd y Cyng. Beth Lawton (Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal) i gynnig sylwadau a diolchodd am y cyfle i drafod y mater. Mewn ymateb i sylw ynglŷn ag amserlen ar gyfer ymateb i argymhellion yr archwiliad, nododd y Rheolwr Archwilio y byddai'r Uned Archwilio yn ail ymweld â'r mater yn y flwyddyn nesaf gan adolygu tystiolaeth o gynnydd neu drefnu ymweliad â'r tri chartref. Ategodd bod ffocws Archwilio Mewnol wedi newid o fod yn canolbwyntio mwy ar yr elfen gofal yn hytrach na materion ariannol.

  Mewn ymateb i awgrym o gyflwyno'r mater i'r Grŵp Gwella Rheolaethau, nododd y Rheolwr Archwilio y byddai hyn yn gyfle gwych i drafod y mater gyda'r Rheolwyr, y

staff a swyddogion y Cyngor fel bod modd ceisio deall a datrys y rhwystrau. Nodwyd mai camgymeriadau elfennol oedd yma mewn maes anodd o absenoldebau staff uchel, o ddiffyg cael staff i ryddhau eraill i fynychu hyfforddiant, ynghyd a diffyg cyrsiau addas i staff, megis symud a thrin, (er i Reolwyr y cartrefi adnabod yr angen). Ategodd bod y Rheolwyr yn awyddus i gael gwell dealltwriaeth o ofynion rheoli, ond nad oedd cefnogaeth a chymorth digonol ar gael iddynt.

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Darganfyddiadau Archwiliadau Gwasanaethau Cartrefi Preswyl (Plas Pengwaith, Llys Cadfan a Plas Hafan) i'w cyfeirio at y Grŵp Gwella Rheolaethau.**

  **Enwebwyd Carys Edwards, Rhys Parry, Cyng. Angela Russell, Cyng. Meryl Roberts a'r Cyng. Ioan Thomas fel aelodau i'r Grŵp Gwella Rheolaethol gyda gwahoddiad i'r Cyng. Beth Lawton (Cadeirydd Pwyllgor Craffu) a'r Cyng. Dewi Jones (Is-gadeirydd Pwyllgor Craffu Gofal) i arsylwi. Petai materion yn codi o'r Grŵp Gwella Rheolaethol fydd angen sylw pellach, byddant yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Craffu Gofal**

Nodyn:
Archwiliad Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth – cais i ystyried bod gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn cael sylw'r Pwyllgor – y Pwyllgor i dderbyn adroddiad blynyddol yn nodi Trefniadau'r Cyngor i ymdrin â materion Rhyddid Gwybodaeth. Y Cadeirydd i drafod gyda Phennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol.

**8. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2024/25**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn diweddaru'r Pwyllgor ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau Cynllun Archwilio Mewnol 2024/25. Cyfeiriwyd at statws y gwaith ynghyd â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Amlygwyd, hyd at 27 Medi 2024, bod 11 allan o'r 45 archwiliad unigol sydd yn y cynllun wedi eu rhyddhau yn derfynol neu wedi cau, sydd yn cynrychioli 24% o'r cynllun.

Cyfeiriwyd at addasiadau a wnaed i'r Cynllun a hynny oherwydd, gwyliau, salwch, hyfforddiant, rheolaeth a chyfarfodydd, gan ategu bod archwiliadau pellach wedi eu hychwanegu felly'n anorfod gwneud rhai newidiadau i'r Cynllun.

Nodwyd, yn unol ag arfer gorau a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus, bod Cynllun Archwilio Mewnol yn destun adolygiad parhaus i sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol ac yn adlewyrchu newidiadau yn y busnes gan osod blaenoriaethau'r cynllun ar sail risg neu gais gan Bennaeth Adran.

Diolchwyd am yr adroddiad

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyn yr adroddiad**

**9. TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION**

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid yn gofyn i'r pwyllgor nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt y Trosolwg Arbedion, ystyried penderfyniadau i'r Cabinet (15-10-2024) a sylwebu fel bo angen. Nodwyd bod yr adroddiad yn amlygu'r sefyllfa hyd ddiwedd Awst 2024.

Amlygwyd, er mwyn cau'r bwlch ariannol eleni, rhaid oedd gweithredu gwerth £5.6 miliwn o arbedion yn ystod 2024/25; cyfuniad o £3.6 miliwn oedd wedi eu cymeradwyo yn Chwefror 2023 ac arbedion newydd a gymeradwywyd yn Chwefror 2024 gwerth £2 filiwn.

Adroddwyd, dros y blynyddoedd diwethaf, ac fel sydd wedi ei adrodd i'r Pwyllgor yn gyson, gwelwyd trafferthion gwireddu arbedion mewn meysydd yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Maes Gwastraff, ac felly, bu i werth £2 filiwn o gynlluniau oedd â risgiau sylweddol i'w cyflawni, gael eu dileu yn ystod 2023/24.

Tynnwyd sylw at yr arbedion newydd ynghyd a'r arbedion oedd wedi eu cymeradwyo cyn hynny, megis cynlluniau arbedion hanesyddol am y cyfnod o'r flwyddyn ariannol 2015/16 hyd at y flwyddyn ariannol 2024/25. Amlygwyd bod 98%, sef dros £33.7 miliwn o'r £34.3 miliwn o arbedion, bellach wedi eu gwireddu.

Yng nghyd-destun y cynlluniau arbedion newydd gwerth £12 miliwn, adroddwyd bod 65% o'r arbedion eisoes wedi eu gwireddu gyda 8 miliwn pellach ar drac i gyflawni'n amserol. Er hynny, nodwyd bod risgiau i wireddu'r arbedion yn amlwg mewn rhai meysydd, megis yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Amgylchedd.

Cyfeiriwyd at werth yr arbedion hynny sydd eisoes wedi eu cymeradwyo ar gyfer 2025/26 ymlaen ac fe nodwyd bod cynlluniau arbedion a thoriadau pellach ar gyfer 2025/26 eisoes dan ystyriaeth y Cyngor Gwynedd - bydd y rhain yn destun adroddiad pellach.

Wrth grynhoi'r darlun, adroddwyd bod £41.7 miliwn o arbedion wedi eu gwireddu (90% o'r £46.6 miliwn gofynnol dros y cyfnod) ac fe ragwelir y bydd 2% pellach yn cael ei wireddu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol (er bydd oediad a rhai risgiau i gyflawni'r cynlluniau sydd yn weddill).

Diolchwyd am yr adroddiad

Materion yn codi o'r drafodaeth ddilynol:
- Bod risg o beidio cyflawni'r arbedion ynghyd a risg o gyflawni
- Bod yr adroddiad yn amlygu sefyllfa dda dros y 10 mlynedd ddiwethaf, ond bod angen canolbwyntio bellach ar y blynyddoedd mwyaf diweddar sydd wrth gwrs yn amlygu darlun o ddiffyg gwireddu arbedion oherwydd bod y sefyllfa yn mynd yn anoddach - awgrym i lunio tabl yn gwahaniaethu rhwng yr hanesyddol a'r cyfredol
- A yw'r adrannau yn hyderus y gallent gyflawni arbedion 2024/25?
- Pryder bod rhai arbedion yn llithro yn flynyddol
- Bod angen edrych ar ddiwylliant a threfniadau gwasanaethau - ystyried ffyrdd gwahanol o gyllidebu yn hytrach na 'naddu' neu ddefnyddio arian sydd wedi'i gasglu at ddiben arall.

Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd yr Aelod Cabinet bod pob ymgais yn cael ei wneud i leihau'r effaith andwyol ar drigolion Gwynedd. Ategodd bod y risg o fethu cyflawni yn cael ei ystyried ac yn sicr yn amlwg mewn rhai sefyllfaoedd. O ran hyder adrannau i gyflawni arbedion 2024/25 nododd bod y sicrwydd yn amrywio o gynllun i gynllun a chyfeiriodd at Tabl 1 (Crynodeb o statws yr holl gynlluniau arbedion ers Ebrill 2015) yn yr adroddiadau oedd yn rhoi dadansoddiad o'r sefyllfa.

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt y Trosolwg Arbedion**

Nodyn:

Llunio tabl i'r dyfodol sydd yn gwahaniaethu rhwng y sefyllfa hanesyddol a'r sefyllfa ddiweddaraf fel bod bodd adnabod risgiau i'r sefyllfa gyfredol

**10. RHAGLEN GYFALAF 2024/25 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod Cabinet Cyllid yn amlygu rhaglen gyfalaf (sefyllfa diwedd Awst 2024) ynghyd a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Gofynnwyd i'r Pwyllgor graffu'r wybodaeth a chynnig sylwadau cyn cyflwyno am gymeradwyaeth y Cabinet 15 Hydref 2024.

Cyfeiriwyd at ddadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £169.8 miliwn am y 3 blynedd 2024/25 - 2026/27 ynghyd a'r ffynonellau sydd ar gael i ariannu'r cynnydd net sydd £51.6miliwn ers y gyllideb wreiddiol, gyda £33miliwn ohono yn deillio o ail broffilio ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol.
Ategwyd,

- Bod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi £117 miliwn yn 2024/25 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £48.8miliwn (42%) ohono wedi'i ariannu trwy grantiau penodol.
- Bod £17.2 miliwn ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2024/25 i 2025/26 a 2026/27.
- bod y prif gynlluniau sydd wedi llithro ers y gyllideb wreiddiol yn cynnwys £4.1 miliwn Cynlluniau Ysgolion (Cymunedau Dysgu Cynaladwy ac Eraill), £3.1 miliwn Cynlluniau Cronfa Ffyniant Bro, £2.7 miliwn Cynlluniau Ysgogi'r Economi ac Unedau Diwydiannol, £2.5 miliwn Cynlluniau Rheoli Carbon a Phaneli Solar, £1.2 miliwn Cynllun Hwb Iechyd a Gofal Penygroes a £1.1 miliwn Cynlluniau Sefydliadau Preswyl.

Tynnwyd sylw at restr grantiau ychwanegol mae'r Cyngor wedi llwyddo eu denu ers yr adolygiad diwethaf a oedd yn cynnwys, Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy - Defnydd Cymunedol Ysgolion, Grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol (LTF) a'r Gronfa Teithio Llesol (ATF) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau, Grant Cronfa Tai Gofal ar gyfer cartrefi i blant gan Lywodraeth Cymru a Grant Cynnal a Chadw Ysgolion 2024/25.

Cyfeiriwyd at y wybodaeth am Ddangosyddion Darbodus Cyfalaf y Cyngor gan amlygu, yn unol â'r Côd Darbodus gan CIPFA, bod rhaid adrodd ar y wybodaeth - ategwyd bod y Cyngor wedi cydymffurfio yn llawn gyda pholisi ar fenthyca at ddibenion cyfalaf.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chynnydd o £370,000 mewn defnydd o fenthyca a pha mor hyderus oedd y penderfyniad i gefnogi hyn, nododd yr Aelod Cabinet bod y benthyciad yn un ar gyfer adnewyddu fflyd cerbydau'r Adran Amgylchedd fel modd o gyflawni dyletswyddau sero net ( o ddefnyddio cerbydau trydan ac nid disel). Er yn swm sylweddol, roedd y benthyciad yn dderbyniol.

Mewn ymateb i sylw bod rhaid ail-broffilio rhaglen gwariant mewn ymateb i golled grant Llywodraeth Cymru, cyfeiriwyd at y rhesymeg a'r cyfiawnhad dros yr argymhellion gan nodi eto,

- bod £17.2m ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ailbroffilio o 2024/25 i 2025/26 a 2026/27, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor**

## 11. CYLLIDEB REFENIW 2024/25 ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2024

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod Cabinet Cyllid yn manylu ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2024/25, a'r rhagolygon tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Gofynnwyd i'r Pwyllgor graffu'r wybodaeth a chynnig sylwadau cyn cyflwyno am gymeradwyaeth y Cabinet 15 Hydref 2024.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun i'r adroddiad drwy nodi:-

- Nad oedd y darlun yn unigryw i Wynedd
- Er bod cronfeydd wrth gefn Gwynedd yn hanesyddol yn gryf, maent yn gwagio yn sydyn
- Tangyllido sydd yma ac nid diffyg rheolaeth gyllidol
- Bod pob ymgais yn cael ei wneud i leihau'r effaith ar drigolion Gwynedd

Ategodd mai adrodd ar y sefyllfa oedd y Swyddogion Cyllid ac mai'r Adrannau eu hunain oedd yn gyfrifol am eu cyllidebau.

Cyfeiriwyd ar dalfyriad o sefyllfa derfynol yr holl adrannau gan adrodd, yn dilyn adolygiad diwedd Awst mae'r rhagolygon yn awgrymu y bydd gorwariant o £7.6 miliwn ac y bydd chwech o'r adrannau yn gorwario erbyn diwedd y flwyddyn. Rhagwelwyd gorwariant sylweddol ar gyfer yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Plant a Theuluoedd, Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC a'r Adran Amgylchedd.

Y prif faterion:

- Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant - derbyniodd yr Adran ddyraniad cyllideb ychwanegol barhaol o dros £3.2 miliwn eleni i gwrdd â phwysau mewn gwahanol feysydd; mae'r rhagolygon diweddaraf yn awgrymu bydd £2.7 miliwn o orwariant erbyn diwedd y flwyddyn (i'w gymharu â £3.9 miliwn yn 2023/24). Y gorwariant yn ganlyniad o gyfuniad o nifer o ffactorau sy'n cynnwys cynnydd yn y pwysau ar y ddarpariaeth gofal cartref, Y prif faterion eraill yn cynnwys taliadau uniongyrchol sydd yn gorwario £1.3 miliwn yn y gwasanaeth pobl hŷn, a llety cefnogol yn y gwasanaeth anabledd dysgu. Gwaith wedi ei gomisiynu gan y Prif Weithredwr y llynedd i edrych ar sefyllfa ariannol yr adran
- Adran Plant a Theuluoedd - sefyllfa ariannol yr adran wedi gwaethygu'n sylweddol ers sefyllfa 2023/24 pryd adroddwyd ar orwariant o £2.6 miliwn; bellach wedi cynyddu i £3.2 miliwn; yn bennaf o ganlyniad i gynnydd yng nghostau lleoliadau all-sirol. Gwelwyd cynnydd yng nghymhlethdodau pecynnau a defnydd cynyddol ddiweddar o leoliadau heb eu cofrestru. O ganlyniad i'r gorwariant eithriadol gan yr Adran Plant a Theuluoedd, mae'r Prif Weithredwr wedi comisiynu gwaith i egluro manylder y darlun yng ngofal Plant, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r materion a rhaglen glir i ymateb. Bydd y gwaith yn cael ei arwain gan Gyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Adran Addysg - Yn dilyn gorwariant o £1.5 miliwn yn ystod y flwyddyn ariannol 2023/24 ar gludiant ysgolion, bu i'r maes dderbyn dyraniad cyllideb ychwanegol eleni o £896k ar sail barhaol ac £896k pellach am flwyddyn yn unig, i gyfarch y pwysau ar y maes bysus a thacsis ysgolion yn dilyn ail-dendro cytundebau, ac felly adroddir ar sefyllfa ariannol gytbwys.
- Byw'n Iach –dros y blynyddoedd diwethaf, gan fod lefelau incwm Cwmni Byw'n Iach wedi cael ei amharu, mae'r cwmni wedi derbyn cefnogaeth ariannol flynyddol gan y Cyngor uwchlaw'r taliad cytundebol y cytundeb darparu, i'w galluogi i gynnal eu gwasanaethau. Mae'r gefnogaeth ariannol yn parhau eleni a'r swm gofynnol yn £101k.
- Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC - rhagwelir gorwariant o £649k; gwelwyd lleihad yn y gwaith sydd yn cael ei gomisiynu gan asiantaethau allanol sydd yn cael effaith negyddol ar incwm gwasanaethau priffyrdd. Ym mwrdeistrefol, mae cyfuniad o ffactorau, gan gynnwys pwysau ychwanegol ar gyllidebau staff glanhau

strydoedd a glanhau toiledau cyhoeddus, tra bod colledion incwm yn faterion yn cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus.

- Adran Amgylchedd - gorwariant o £1,083k yn cael ei ragweld, gyda'r tueddiad blynyddol o orwariant yn y maes casglu gwastraff ac ailgylchu yn parhau ac yn gyfrifol am £664k o'r gorwariant. Costau cyflogaeth a lefelau salwch a goramser yn broblemus yn y maes, ond y mater yn derbyn sylw ac felly i weld yn lleihau. Diffyg incwm parcio hefyd yn amlwg eleni yn ogystal â nifer o gynlluniau arbedion yn llithro.
- Tai ac Eiddo - pwysau sylweddol ar y gwasanaeth llety argyfwng yn parhau, gyda rhagolygon fod gwariant yn y maes oddeutu £6.4 miliwn eleni (o gymharu â 6.8 miliwn y llynedd). Bod gorwariant o £227k yn dilyn ystyried cyllideb ychwanegol o £3m sydd wedi ei ddyrannu o bremiwm treth Cyngor a hefyd £1.2 miliwn o gyllideb un-tro ychwanegol a ddyrannwyd fel rhan o'r drefn bidiau ar gyfer 2024/25 i gynorthwyo gyda'r pwysau ychwanegol.
- Corfforaethol - rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2024/25 gyda chynnyrch treth ychwanegol a lleihad yn y niferoedd sydd wedi hawlio gostyngiad treth cyngor o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Adroddwyd bod adroddiad Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cabinet ym mis Mai 2024, oedd yn amlinellu cyfundrefn arbedion a thoriadau er mwyn ymateb i'r sefyllfa ariannol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymell rhewi gwariant yn ystod y flwyddyn pe byddai'n dod i'r amlwg fod gorwariant sylweddol yn debygol. O ystyried y rhagolygon gorwariant diweddaraf, ystyriwyd fod mesur o'r fath yn briodol ac felly, bydd rhaid cael cyfuniad o drefniadau rhewi gwariant ynghyd â gwneud defnydd o gronfeydd wrth gefn y Cyngor i gyllido'r blwch ariannol a ragwelir am 2024/25.

Diolchwyd am yr adroddiad

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Bod y gorwariant yn bryder
- Gwaith a gomisiynwyd gan y Prif Weithredwr - er yn adrodd bod gwaith yn cael ei gomisiynu, nid oes gwybodaeth wedi ei dderbyn - hanfodol bod canfyddiadau'r gwaith yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor
- Defnydd o gronfeydd wrth gefn yn achosi pryder. Os defnyddio'r arian yma, rhaid sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio yn y llefydd priodol - yn ymateb i'r angen
- Yn derbyn yr argymhellion, a'r datganiad nad yw Gwynedd yn unigryw
- Adolygiad o sefyllfa ariannol Oedolion - y wybodaeth o ddefnydd i osod cyllideb - beth yw amserlen y gwaith yma? Angen i'r Cabinet herio pryd fydd y gwaith ar gael - angen sicrwydd bod y gwaith mewn lle
- Elfen o obaith bod incwm yn dod i mewn - realiti ydy paratoi ar gyfer sefyllfa lle bydd lleihad mewn incwm - rhaid i'r gorwario stopio

Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd yr Aelod Cabinet ei fod yn rhannu'r pryder o ddefnyddio arian wrth gefn gan amlygu pwysigrwydd mewn gwneud newidiadau sylweddol. Nododd bod y Cyngor wedi comisiynu CIPFA i wneud astudiaeth o sut mae Gwynedd yn cymharu gydag Awdurdodau eraill gan edrych ar brosesau ac ystyried gwneud pethau'n wahanol.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â chostau defnydd lleoliadau allsirol gan yr Adran Plant a Theuluoedd ac er yn croesawu datblygiad Grwpiau Bychain o sicrhau darpariaeth o fewn y Sir, mai araf yw'r broses ac y byddai'n annhebygol o wneud gwahaniaeth mawr i'r gorwariant, nodwyd mai'r gobaith yw canolbwyntio ar yr achosion mwyaf eithriadol yn gyntaf i leihau'r gost. Er yn derbyn bod y broses yn cymryd amser, ac y bydd angen penodi staff ar gyfer y lleoliadau hyn, bydd y datblygiad yn un buddiol yn y pendraw.

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau**
- **Cytuno gyda'r argymhelliad i'r Cabinet:**
    - **Trosglwyddo £1,868k o danwariant ar gyllidebau corfforaethol i Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor**

Nodyn:
Gwaith sydd wedi ei gomisiynu gan y Prif Weithredwr i gael gwell dealltwriaeth o orwariant eithriadol gan yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant: cais i'r Cabinet herio beth yw amserlen y gwaith yma – angen sicrwydd bod y gwaith yma yn ei le i osod cyllideb

## 12. DIWEDDARIAD CHWARTEROL RHEOLAETH TRYSORLYS

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn adrodd ar wir ganlyniadau rheolaeth trysorlys y Cyngor 2023/24 hyd 30 Mehefin 2024, yn erbyn Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2024/25 a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn Mawrth 2024. Nodwyd bod y strategaeth yn gofyn i'r Rheolwr Buddsoddi adrodd ar ddangosyddion darbodus rheoli'r trysorlys yn chwarterol gydag adolygiad o'r flwyddyn ariannol llawn hefyd i'w gyflwyno i'r Pwyllgor pan yn amserol.

Adroddwyd bod y flwyddyn wedi bod yn flwyddyn brysur a llewyrchus iawn i weithgaredd rheolaeth trysorlys y Cyngor gyda'r arian wedi cael ei gadw'n ddiogel a'r cyfraddau llog wedi bod yn uchel ac wedi cynhyrchu incwm llog sylweddol.

Ar 30 Mehefin 2024, roedd y Cyngor mewn sefyllfa gref iawn gyda buddsoddiadau net a hynny oherwydd y lefel uchel o fuddsoddiadau a chyfalaf gweithredol. Roedd hyn yn cynnwys arian y Bwrdd Uchelgais a'r Gronfa Bensiwn. Nodwyd nad oedd unrhyw symud sylweddol wedi bod yn lefel y benthyciadau yn y 3 mis diwethaf; y Cyngor yn parhau gyda'r strategaeth o ddefnyddio adnoddau mewnol cyn benthyca'n allanol. Ategwyd bod y Cyngor yn buddsoddi mewn banciau a chymdeithasau adeiladau, awdurdodau lleol, cronfeydd marchnad arian, swyddfa rheoli dyledion a chronfeydd wedi'i pwlio, a rhain yn gyson gyda'r math o fuddsoddiadau sydd wedi ei wneud gan y Cyngor ers nifer o flynyddoedd bellach. Adroddwyd bod y gyfradd banc sylfaenol wedi bod yn 5.25% yn y cyfnod mae'r dychweliadau wedi bod yn uchel.

Nodwyd bod yr holl weithgareddau wedi cydymffurfio'n llawn gyda chod ymarfer CIPFA a Rheolaeth Trysorlys y Cyngor sydd yn newyddion da ac yn amlygu rheolaeth gadarn dros yr arian. Tynnwyd sylw at y Meincnod Ymrwymiadau (liability benchmark) gan nodi ei fod yn arf pwysig i ystyried os yw'r Cyngor yn debygol o fod yn fenthyciwr hirdymor neu'n fuddsoddwr hirdymor yn y dyfodol, ac felly yn siapio ffocws strategol a miniogi penderfyniadau. Amlygwyd bod y Cyngor yn disgwyl parhau i fod uwchlaw ei feincnod hyd at 2025 a hynny oherwydd bod y Cyngor yn dal cronfeydd wrth gefn, a'r llif arian hyd yma wedi bod yn is na'r rhagdybiaethau a wnaed pan fenthycwyd yr arian.

Wrth edrych i'r dyfodol, nodwyd nad oedd angen benthyca yn y tymor hir yn seiliedig ar y rhagamcanion cyfredol, ond efallai bydd angen ystyried hyn yn y tymor byr, yn y dyfodol agos.

Diolchwyd am yr adroddiad

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth**

## 13. CYDBWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD - SEFYDLU IS-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynwyd adroddiad gan Rheolwr Democratiaeth ac Iaith yn nodi, yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (‘Deddf 2021’) bod angen i Cydbwyllgor Corfforaethol y Gogledd 2021 greu Pwyllgor Llywodraethu Archwilio ei hun. Eglurwyd bod Cydbwyllgor Corfforaethol y Gogledd bellach wedi penderfynu creu Is-bwyllgor Llywodraethu gyda’r aelodaeth i gynnwys chwe Cynghorydd (un o bob un o'r Cynghorau Cyfansoddol) a thri aelod lleyg.

Ategwyd mai dymuniad yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio oedd penodi aelodau o Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio presennol y Cynghorau Cyfansoddol ac i bob un o’r Cynghorau Cyfansoddol enwebu Cynghorydd o’i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei hun fel ei brif enwebai ynghyd ag ail Gynghorydd i weithredu fel dirprwy (i sicrhau cworwm pan nad yw’r prif enwebai ar gael). Roedd gofyn i’r Cynghorau Cyfansoddol hynny os ydynt yn dymuno, hefyd enwebu aelod lleyg i’w hystyried i wasanaethu ar Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Corfforedig y Gogledd.

**PENDERFYNIAD**

- **Enwebu’r Cynghorydd Ioan Thomas i wasanaethu ar Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd**
- **Enwebu’r Cynghorydd Richard Glyn i weithredu fel dirprwy i wasanaethu ar Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd**
- **Enwebu Carys Edwards (Cadeirydd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Gwynedd) i’w hystyried i wasanaethu ar Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd**

## 14. BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO HYD CHWEFROR 2025

Cyflwynwyd blaen raglen o eitemau ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor hyd Hydref 2025.

**PENDERFYNIAD:**

**Derbyn y Rhaglen waith ar gyfer Tachwedd 2024 - Hydref 2025**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a daeth i ben am 13:10

__________________________

**CADEIRYDD**